**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**YNYS MÔN 2026**

**Cystadleuaeth 98– Parti Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9**

# Gwerth y Byd, Eleri Richards

Dim ond un byd i'w warchod
sy gennym, dyna'i gyd.
Mae'n drysor amhrisiadwy,
y trysor mwya' drud,
Mae'n werthfawr ond yn fregus,
y wyrth a roed i'n hil,
Os di-hid yw ein hagwedd,
daw distryw yn ein sgil.

Mae'r byd fel cist o wydr
a greodd dwylo Duw
Ond camgymeriad meddwl
mai un diwaelod yw.
Os ydym oll yn farus
yn cymryd heb roi 'nôl,
fe sylweddolwn ninnau
ein hafradlonedd ffôl.

Rhaid arbed ein hadnoddau
a'u gwarchod hwynt yn daer,
Rhaid meddwl am ddyfodol,
ein daear yw ein caer.
Rhaid lleisio ein pryderon,
nid byw fel tystion mud,
Rhaid inni sylweddoli
beth ydyw gwerth y byd.

Allan o'r gyfrol Newid byd
Hawlfraint © Cyhoeddiadau Curiad. .
Mae'r copi yma ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2026 yn unig. Nid oes caniatad am unrhyw ddefnydd arall heb ganiatâd pellach gan Curiad. www.curiad.co.uk